Papur 5

**Julie James AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio**
**Cabinet Secretary for Housing, Local Government and Planning**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

John Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

30 Ebrill 2024

Annwyl John

Rwy'n croesawu adroddiad y Pwyllgor a'r gwaith rydych chi ac aelodau'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai wedi ei gyflawni o ran amrywiaeth mewn llywodraeth leol. Mae hyn yn adeiladu ar yr ymchwiliad a gynhaliwyd gan y Pwyllgor yn 2019, ac mae'n galonogol gweld y cynnydd a wnaed ers hynny.

Roedd un o'r materion pwysig a godwyd fel rhan o'r ymchwiliad diweddar yn canolbwyntio ar y cam-drin sy'n digwydd ym myd gwleidyddiaeth. Rwy'n deall eich bod chi ac aelodau'r Pwyllgor yn siomedig nad oeddech wedi gallu cymryd rhan yn y digwyddiad i drafod cam-drin mewn gwleidyddiaeth, a gynhaliwyd gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ar y pryd, Rebecca Evans AS ar ddydd Mercher 31 Ionawr 2024, oherwydd ymrwymiadau eraill.

Hefyd roedd hwn yn bwnc a gafodd sylw gan yr Aelodau yn ystod y ddadl ar adroddiad y Pwyllgor ar Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol ddydd Mercher 7 Chwefror yn y Cyfarfod Llawn, pan fynegwyd pryderon ynghylch heriau'r sefyllfa bresennol sy'n effeithio ar aelodau etholedig wrth iddynt gyflawni eu busnes o ddydd i ddydd.

Roedd y digwyddiad yn elwa o gael cynrychiolwyr o bob lefel o lywodraeth yng Nghymru, gan gynnwys y Senedd, y prif gynghorau a chynghorau cymuned a thref. Roedd yn ddefnyddiol gallu cymharu a chyferbynnu dulliau gweithredu sydd eisoes ar waith, yn ogystal â rhannu syniadau a phryderon am faterion yr oedd y cyfranogwyr yn teimlo bod angen mynd i'r afael â nhw.

Mae fy swyddogion yn cynllunio ar gyfer ail gam y gwaith hwn, sef trafod atebion posibl gydag ystod ehangach o bobl a sefydliadau yng nghynhadledd CLlLC ar 27 Mehefin.

Byddwn yn croesawu'r cyfle i drafod y mater hwn gyda chi, er mwyn i'ch profiadau a'ch syniadau chi ar gyfer newid helpu i lywio'r cam nesaf. Os hoffech dderbyn y cynnig hwn, efallai y gall ein swyddogion drafod dyddiad cyfleus inni gyfarfod.

Yn gywir,



**Julie James AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio
Cabinet Secretary for Housing, Local Government and Planning

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.